# Tasg 1

(Craidd, sbardun 1)

**Gweithgareddau ar gyfer unigolion**

1. Sylwch ar yr ymadroddion hyn:
   methu cario 'mlaen
   gadael yr elusen i lawr
   gadael fy hun i lawr

   Idiomau Saesneg yw'r rhain ac maen nhw'n cael eu defnyddio mewn darn o ysgrifennu anffurfiol.

   Petai'r darn yn fwy ffurfiol, pa ymadroddion Cymraeg allai Daniela eu defnyddio am:

   cario 'mlaen ..........................................................

   gadael ... i lawr ..........................................................

2. Nodwch sut wnaeth Daniela baratoi ar gyfer rhedeg ym Marathon Llundain.

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

   ..........................................................................................................................

**Gweithgaredd grŵp**

3. Mae rhai o'ch ffrindiau'n mynd i redeg marathon. Mewn grŵp, trafodwch sut y dylen nhw baratoi ac ysgrifennwch gyfres o gyfarwyddiadau i'w helpu nhw.

   Cofiwch, dylech chi ddefnyddio'r ffurfiau gorchmynnol wrth roi cyfarwyddiadau, e.e.
   **Bwytwch ddigon o ...** **Peidiwch â bwyta ...**
   **Prynwch ddillad ...**

   Gallech chi ddefnyddio **Rhaid** hefyd, e.e.
   **Rhaid i chi fwyta digon o ...**
   **Rhaid i chi brynu dillad ...**